No.

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr G. Bruce, P. Drake and J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: Ms D. Bollard (Cynrychiolydd yr Ymgeisydd), K. Brook (Swyddog Gorfodi Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg), R. Price (Swyddog Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg), M. Swindell (Swyddog Gwasanaethau'r Cabinet a Phwyllgorau, Cyngor Bro Morgannwg), Y. Witchell (Rheolwr Tîm Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg) a'r Cynghorwyr I.R. Buckley, R. Fisher a M.J.G. Morgan.

(a) Cyhoeddiad -

Cyn i fusnes yr Is-bwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Democrataidd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol."

Dywedodd y Swyddog hefyd fod copi o'r drefn ar gyfer y cyfarfod ar gael i'r Aelodau Etholedig yn y papurau agenda a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD - Ethol y Cynghorydd P. Drake yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawiad yr Is-bwyllgor.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Caniatáu Trwydded Safle – Bier Keller, 3-4 Paget Road, Barry, CF62 5TQ -

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawiad yr Is-bwyllgor a diolchodd i Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd am wneud cyflwyniadau.

Wedi hynny gwahoddodd y Cadeirydd Reolwr y Tîm Trwyddedu, i gyflwyno'r adroddiad i'r Is-bwyllgor, a ddywedodd fod yr adroddiad i ystyried cais dan Ddeddf

Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") i roi Trwydded Safle yn ymwneud â’r Bier Keller, 3-34 Paget Road, y Barri. Cyflwynodd y swyddog grynodeb byr o'r adroddiad i'r Aelodau, yn ogystal â diweddariad ers i'r cais ddod i law a oedd yn ymdrin â newidiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Tynnwyd sylw at y cynllun diwygiedig a gyflwynwyd, a ddosbarthwyd i bob parti ac fe’i gyhoeddwyd ar wefan Bro Morgannwg a oedd yn rhan o'r cais.

Nododd yr Aelodau fod adran Iechyd yr Amgylchedd Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi tynnu eu sylwadau yn ôl yn amodol ar gynnwys yr amodau yn Atodiad B, gan ffurfio rhan o'r cais gerbron yr Aelodau ac felly nad oeddent yn bresennol i gyflwyno ymhellach. Hefyd, roedd Heddlu De Cymru wedi tynnu eu sylwadau yn ôl yn dilyn trafodaethau gyda chynrychiolydd yr ymgeisydd ac felly roedd yr amodau yn Atodiad C yr adroddiad bellach yn rhan o'r broses ymgeisio. O'r herwydd, yr unig faterion i'w penderfynu gan Aelodau oedd y sylwadau yn yr Atodiad i’r adroddiad. Cadarnhaodd y swyddog ymhellach nad oedd yr un o'r partïon eraill wedi ymateb i'r hysbysiad o'r gwrandawiad ac o'r herwydd nad oeddent yn bresennol.

Yr oriau a ganiateir ar gyfer gwerthu alcohol y gwnaed cais amdanynt oedd dydd Llun i ddydd Sul 11:00 i 23:30 gwerthu i’w yfed ar y safle ac oddi arni bob diwrnod o'r wythnos, hefyd cerddoriaeth wedi'i recordio o ddydd Llun i ddydd Sul 11:00 tan hanner nos, a cherddoriaeth fyw o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 11:00 a 23:00.

Roedd y cais hefyd yn cynnwys Atodlen Weithredu, a oedd yn nodi'r camau yr oedd yr ymgeisydd wedi cynnig i’w cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac roedd y rhain wedi’u cyflwyno ym mlwch M y ffurflen gais yn Atodiad A.

Roedd yr amodau ar gyfer yr elfen Iechyd yr Amgylchedd wedi'u cynnwys yn Atodiad B i'r adroddiad, gydag elfen Heddlu De Cymru wedi'i chynnwys yn Atodiad C.

Roedd un o'r sylwadau yn cyfeirio at y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus sydd mewn grym ar Ynys y Barri. Er gwybodaeth, roedd Glan Môr Ynys y Barri wedi'i gynnwys mewn Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) ers mis Medi 2017. Adnewyddwyd y Gorchymyn gan y Cyngor ar 7 Rhagfyr, 2020 a chafodd copi o'r Gorchymyn presennol a'r Map perthnasol eu hatodi i’r adroddiad yn Atodiad D.

Yn wreiddiol, roedd y cynllun yn cynnwys ardal allanol y tu allan i gefn y safle, ond dim ond ardal o flaen y safle a dau fan parcio oedd y bwriad erbyn hyn.

Heb unrhyw gwestiynau wedi'u codi i'r Swyddog Trwyddedu, gwahoddodd y Cadeirydd gynrychiolydd yr Ymgeisydd, Ms D. Bollard, i gyflwyno eu hachos.

Dywedodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod ei chleient yn dymuno gweithredu safle bar o'r enw Bier Keller yn islawr 3-4 Paget Road yn y Barri. Roedd yr ymgeisydd yn ymwybodol o enw blaenorol y sefydliad ac yn rhoi sicrwydd i'r Aelodau na fyddai ochr anfanteisiol yr enw hwnnw yn parhau o dan y drwydded newydd.

Roedd yr ymgeisydd wedi llunio rhestr o gamau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel y nodir yn Neddf Trwyddedu (2003). Byddai'r safle ar agor o 11:00am tan hanner nos, gyda'r gwerthiant olaf am 23:30pm.

Roedd ardal i flaen y safle yr hoffai'r ymgeisydd wneud cais am drwydded caffi palmant amdani, tebyg i'r un yn Enzo's, ac roedd trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Adran Priffyrdd ynghylch unrhyw bosibilrwydd o'r fath ynghylch y ddau le parcio a allai fod yn addas i wneud cais amdanynt. Dim ond tan 20:00pm y byddai'r rheini'n cael eu defnyddio, heb unrhyw fwriad i weithredu'r lle hwnnw yn hwyr yn y nos ac felly osgoi unrhyw broblem am niwsans sŵn. Byddai gwerthu alcohol trwy ap. Byddai noddwyr naill ai yn yr ardal honno wrth ddefnyddio'r bar, neu byddent yn archebu trwy'r ap. O'r herwydd, dim ond ar gyfer yfed alcohol y byddai'r elfen gwerthu alcohol yn cael ei defnyddio ac nid at unrhyw ddibenion gwerthu eraill.

Dangosodd arwyddion ar yr arcêd yn glir na chaniatawyd unrhyw alcohol yn yr arcêd o dan Ddeddf Gamblo (2005). Byddai aelodau o staff yn monitro cwsmeriaid i sicrhau nad oes unrhyw achosion o dorri'r gofyniad hwnnw ac roedd yr ymgeisydd eisoes wedi cytuno i amodau a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Codwyd sylwadau gan Iechyd yr Amgylchedd a oedd wedi'u cynnwys yn y cais gwreiddiol ynghylch cefn yr adeilad y bwriadwyd ei ddefnyddio fel gardd gwrw ond nad oeddent bellach wedi'u cynnwys yn y cais ac ni fyddai mynediad yng nghefn y safle ond ar gyfer staff neu yn ystod argyfyngau ac felly ni fyddai'n peri unrhyw risg o niwsans i drigolion lleol.

Felly, yr unig werthiant alcohol y tu allan i'r safle oedd yr ardal a nodwyd ar y cynllun diwygiedig, sef y ddau le parcio o flaen y safle ond yn amodol ar unrhyw gais am drwydded palmant caffi a gyflwynwyd ar ôl y cais hwn.

Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r holl bartïon a oedd yn bresennol a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau am gynrychiolydd yr Ymgeisydd, a gofynnodd y Cynghorydd Norman iddynt pa gamau fyddai'n cael eu cymryd i sicrhau nad oedd alcohol yn cael ei gludo y tu hwnt i safle'r caffi ei hun.

Sicrhaodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yr Aelodau y byddai digon o staff yn cael eu cyflogi i sicrhau bod yr ardal yn cael ei monitro'n rheolaidd, nid yn unig i fonitro'r agwedd honno ond hefyd problemau fel sbwriel. Os bydd unrhyw feysydd sy'n peri pryder wrth symud ymlaen, byddai'r ymgeisydd yn edrych ar unrhyw gamau addas pellach yn ôl yr angen.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw deledu cylch cyfyng ar y safle; cadarnhawyd y byddai teledu cylch cyfyng yn cael ei osod.

Heb unrhyw gwestiynau pellach i gynrychiolydd yr Ymgeisydd, ailadroddodd y Swyddog Trwyddedu nad oedd unrhyw sylwadau a dderbyniwyd gan Awdurdodau Cyfrifol ac felly nid oedd unrhyw gynrychiolwyr Awdurdodau Cyfrifol yn bresennol yn y gwrandawiad.

Heb unrhyw gwestiynau pellach, gwahoddodd y Cadeirydd gynrychiolydd yr ymgeisydd i grynhoi eu sylwadau.  Mewn ymateb, dywedodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod yr ymgeisydd yn deall bod dau sylw wedi'u cyflwyno a bod y rheini wedi cael sylw, yn enwedig y pryder ynghylch gwerthu alcohol, rhoddodd sicrwydd i Aelodau y byddai alcohol yn cael ei werthu'n gyfrifol ac nad oedd codi terfynau oedran yn ymarferol.

Heb unrhyw bartïon eraill i ymgynghori â nhw, a heb sylwadau pellach gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y Swyddog Cyfreithiol y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob parti o fewn pum diwrnod gwaith.

Yn dilyn hyn, gwnaeth cynrychiolydd yr Ymgeisydd a’r Swyddog Trwyddedu oedd yn bresennol ddatgysylltu o'r gwrandawiad o bell fel y cadarnhawyd gan Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd, a thrafododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y cais yn breifat.

PENDERFYNWYD – RHOI Trwydded Safle dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn Bier Keller, 3-4 Paget Road, Y Barri, CF62 5TQ.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth ddod i'r penderfyniad roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb oedd wedi gwneud sylwadau. Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor. Roedd rhagdybiaeth yn y gyfraith y dylid rhoi trwyddedau ac os bydd materion sy'n ymwneud â'r Amcanion Trwyddedu yn codi gellir adolygu'r drwydded, yn seiliedig ar dystiolaeth o'r diffyg cydymffurfiaeth â'r amcanion.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd unrhyw faterion wedi'u codi mewn perthynas â'i weithrediad presennol gan yr Heddlu a/neu Adran Iechyd yr Amgylchedd. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn, pe bai problemau'n codi gydag alcohol yn gadael ardal y safle y byddai mwy o staff yn cael eu cyflogi i fonitro'r mater a byddai teledu cylch cyfyng yn cael ei osod i gynorthwyo gyda monitro o'r fath. Nodwyd ymhellach y byddai'r cynnig i ddefnyddio dau le parcio y tu allan yn destun cais pellach am drwydded stryd caffi dilynol.